# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Ionawr 2017

Amser: 14.00 - 16.39

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3909

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC |
| Tystion: | Clarissa Corbisiero-Peters, Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Stuart Ropke, Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Peter Hughes, Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi<br>John Marr, Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi |
| Swyddfa Archwilio | Ann Marie Harkin |

| | |
|---|---|
| Cymru: | Stephen Lisle<br>Nick Selwyn<br>Dave Thomas<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd) |
| Staff y Pwyllgor: | Ann Marie Harkin<br>Stephen Lisle<br>Nick Selwyn<br>Dave Thomas<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod PDF (999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lee Waters. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Crynodeb o'r trafodaethau a gafwyd yn y Digwyddiad i Randdeiliaid (5 Rhagfyr 2016)**

## 3 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Sesiwn dystiolaeth 3

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Stuart Ropke, Prif Weithredwr, a Clarissa Corbisiero-Peters, Dirprwy Brif Weithredwr, Cymdeithasau Tai, fel rhan o'i ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai.

## 4 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Sesiwn dystiolaeth 4

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan John Marr, Uwch Gynghorydd Polisi, Cyngor Benthycwyr Morgeisi, a Peter Hughes, Cymdeithas Adeiladu Principality / Cyngor Benthycwyr Morgeisi, fel rhan o'i ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Trafod gohebiaeth gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, a nododd y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad sylfaenol o ddiogelwch yn y gymuned yng Nghymru yn hytrach na gweithredu ar argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn unig. Cytunodd y

Pwyllgor y byddai’n cadarnhau ei adolygiad arfaethedig gyda Llywodraeth Cymru ac yn ailedrych ar y mater hwn pan fo’r Llywodraeth yn cyhoeddi’r adroddiad.

## 8 Rheoli meddyginiaethau: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar reoli meddyginiaethau.
8.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ar y mater hwn yn nhymor y gwanwyn 2017.

## 9 Adolygiad o Lywodraethiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

9.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ei adroddiad diweddar, sef Adolygiad o Lywodraethiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
9.2 Cytunodd y Pwyllgor i graffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon 2016-17 y Llyfrgell Genedlaethol yn nhymor yr hydref 2017.